Y Pwyllgor Cyllid
—
Finance Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565
—
Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
senedd.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Rebecca Evans AS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

15 Mawrth 2022

Annwyl Weinidog,

Ymchwiliad y Pwyllgor Cyllid i Drefniadau Ariannu ar ôl yr UE

Hoffai'r Pwyllgor Cyllid eich gwahodd i gyfarfod o'r Pwyllgor **ddydd Mercher 22 Mehefin**, i drafod ei ymchwiliad i drefniadau ariannu ar ôl yr UE. Cylch gorchwyl yr ymchwiliad yw ystyried:

- Cynnydd o ran sefydlu a darparu cronfeydd cyfnewid ar gyfer cronfeydd strwythurol yr UE, gan gynnwys:
  - Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU
  - y Gronfa Adnewyddu Cymunedol; a'r
  - 'Gronfa Codi'r Gwastad'.
- Y modd y mae'r cyllid arfaethedig ar gyfer Cymru a'r cyllid a gafwyd yn sgil cyfranogiad parhaus y DU yn rhaglenni'r UE yn cymharu â'r cyllid a gafwyd tra'r oedd y DU yn aelod o'r UE.
- Y mecanweithiau a'r strwythurau sy'n cael eu sefydlu i weinyddu'r cronfeydd hynny yng Nghymru, rolau'r rheini sy'n gysylltiedig, yn enwedig Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, a'r effaith ddilynol ar drefniadau atebolrwydd.

- Swm y cyllid etifeddol y mae disgwyl i Gymru ei gael ar ôl i’r DU adael yr UE ac sy’n gysylltiedig â rhaglenni cronfeydd strwythurol yr UE.

Byddai'n ddefnyddiol pe gallech ddarparu papur ysgrifenedig erbyn 28 Ebrill, sy’n rhoi sylw i’r cylch gorchwyl. Yn ychwanegol, byddai’r Pwyllgor yn ddiolchgar o gael rhagor o wybodaeth am y canlynol:

- Y sylwadau diweddar gan Lywodraeth Cymru y “bydd cyllideb Cymru bron i £1 biliwn ar ei cholled erbyn 2024 oherwydd methiant Llywodraeth y DU i gadw ei haddewid na fyddai Cymru'n colli’r "un geiniog" am i’r DU adael yr UE”.

- Manylion asesiad Llywodraeth Cymru y byddai Cymru’n cael o leiaf £375 miliwn y flwyddyn, pe bai Cymru a’r DU wedi aros yn yr UE.

- Asesiad Llywodraeth Cymru o werth cyllid etifeddol yr UE ym mhob blwyddyn ers ymadawiad y DU â’r UE (31 Ionawr 2020).

Byddai Clerc y Pwyllgor (Leanne Hatcher 0300 200 6343) yn fodlon iawn i gysylltu â'ch swyddogion i drefnu dyddiad addas.

Yn gywir,



Peredur Owen Griffiths AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.